

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Benfro

Awst 2021

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Benfro

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

1. Mae gennym darged heriol i nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â rhai o'r camau gweithredu arfaethedig er mwyn cyflawni'r targed hwn (Gweler Adran 10).

a. Newid darpariaeth Dwy Ffrwd i Cyfrwng Cymraeg

Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y gweithred yma: Rwy'n cefnogi hyn.

b. Sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd

Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y gweithred yma: Rwy'n cefnogi hyn

c. Ymestyn dalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol er mwyn cyrraedd ardaloedd lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd.

Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y gweithred yma: Rwy'n cefnogi hyn

Nodwch unrhyw sylwadau os gwelwch yn dda ynglŷn â'n cynigion ar gyfer y targed yma

Cytunwn gyda'r tri cham gweithredu a nodir uchod, yn ogystal â'r ddwy elfen arall a nodir yn y cynllun, sef:

- parhau â'r broses o sicrhau bod ysgolion sydd mewn cyfnod trosiannol yn symud i gyfeiriad darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- cynyddu capasiti ble mae tystiolaeth o alw; nodwn fod angen i 'alw' gyfeirio at alw cyfredol ac at alw yn yr arfaeth ar gyfer y dyfodol; yn achos Ysgol Caer Elen, mae'n amlwg yn fater o frys mawr; mae pob disgybl sy'n gwneud cais am fynediad ac yn cael ei wrthod yn debygol iawn o fod yn golled i'r system cyfrwng Cymraeg, ac yn ddinesydd sydd wedi colli'r cyfle i ddod yn ddwyieithog yn y dull mwyaf hwylus ac effeithiol – sef trwy addysg drochi o'r cychwyn cyntaf. Byddai'n dda gweld camau ac amserlen benodol o ran cynyddu capasiti Ysgol Caer Elen yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun Strategol.

O ran **(a) newid darpariaeth dwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg**, mae hynny'n sicr i'w gymeradwyo. Mewn ysgol cyfrwng Cymraeg mae modd creu awyrgylch ac ethos Cymraeg a throchi plant a phobl ifanc yn yr iaith mewn modd nad yw'n bosib yn yr un ffordd pan mae dwy ffrwd yn yr ysgol. Nid oes amheuaeth mai trochi o'r fath yw'r ffordd fwyaf effeithiol o greu siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mi fyddai'n ehangu capasiti i dderbyn mwy o ddisgyblion.

Cefnogwn yn llwyr ac yn frwdfrydig y bwriad i **(b) sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd**. Cymeradwywn onestrwydd y Cyngor wrth ddarparu'r map ar dudalen 16 sy'n dangos y bylchau eang yn y ddarpariaeth, er bod maint y bylchau yn amlwg yn destun pryder. Awgrymwn fod angen i'r Cynllun fod yn fwy pendant ynghylch y bwriad i gynnwys prosiectau mewn rhaglen gyfalaf yn y dyfodol (nid 'efallai'), ac amlinellu'r camau tuag at hynny (e.e. astudiaethau dichonolrwydd) gydag amcan o amserlen. Er bod y bwriad yn gloddiw, nid oes digon o fanylder yn y Cynllun.

Cytunwn gyda'r cynnig i **(c) ymestyn dalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol**, gan y bydd hynny'n hwyluso mynediad dysgwyr at yr ysgolion hynny. Cymerwn yn ganiataol y byddai ymestyn y dalgylchoedd yn golygu bod rhieni yn derbyn gwybodaeth am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mwyaf perthnasol iddynt, ac y bydd y plant yn derbyn cludiant am ddim os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf eraill (o ran oedran, pellter ac ati). Byddai'n fuddiol gwneud hynny'n gwbl glir yn y Cynllun, er mwyn osgoi amheuaeth.

Yn naturiol, gan fod 'sichrau ei fod [addysg cyfrwng Cymraeg] ar gael i'r holl ddysgwyr, o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartrefi' yn rhan o weledigaeth y Cyngor Sir, byddai'n rhesymol i gymryd bod ymestyn y dalgylchoedd yn fesur dros dro i ehangu a hwyluso mynediad tra bod gwaith yn digwydd i sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd.

Rhaid gofyn y cwestiwn - beth yw hawliau plant sy'n byw mewn ardaloedd ble nad oes darpariaeth ar hyn o bryd? Dim mynediad o gwbl at addysg cyfrwng Cymraeg? Neu dim ond os allant drefnu a thalu am eu cludiant eu hunain? Mae'n amlwg nad yw hynny'n deg (*equitable*) nac yn gynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Nodwn fod cyfeiriad ar dudalen 37 (dan bennawd Deilliant 1) ynghylch cynnal adolygiad o bolisi cludiant i'r ysgol y Cyngor 'er mwyn sichrau nad oes unrhyw blentyn dan anfantais oherwydd lleoliad ei gartref mewn perthynas â chael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'; cymeradwywn y bwriad, ac awgrymwn fod y Cynllun yn fwy penodol ynghylch yr amserlen ar gyfer y broses.

2. Deilliant 1 – Mwy o blant Meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Tud 35-37)

a. A ydych o'r farn bod digon o wybodaeth ar gael er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg? Nac Ydw

b. Nodwch pa ffactorau canlynol sydd yn debygol o ddylanwadu eich penderfyniad i gynnig addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn: Amherthnasol

c. Nodwch unrhyw sylwadau os gwelwch yn dda ynglŷn â'n cynigion ar gyfer Deilliant 1

Nodwn a chymeradwywn y cynnydd o chwe lleoliad sy'n cynnig darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Fodd bynnag cytunwn â'r dadansoddiad bod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth o hyd, a bod hyn yn bendant yn cael effaith uniongyrchol ar y niferoedd sy'n dewis addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Mae'n gymeradwy bod y Cyngor Sir wedi adnabod y bylchau a hoffem weld cynigion ac amserlenni pendant ar gyfer mynd i'r afael â'r rhain – gan gynnwys sylw i lwybrau dilyniant o'r ddarpariaeth meithrin i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cytunwn yn ddiamod bod angen i'r ddarpariaeth cwmpasu plant o fewn Dechrau'n Deg.

Cymeradwywn y Cyngor Sir unwaith eto am gydnabod y diffygion yn y wybodaeth a ddarperir i rieni ac am y parodrwydd i fod yn fwy rhagweithiol ynghylch y mater hwn. Mae hyn yn ganolog i ymdrechion i ehangu mynediad i addysg a gofal cyfrwng Cymraeg, ac yn gwbl greiddiol wrth ymgynraedd at Ddeilliant 1, ac wrth reswm, at y deilliannau dilynol eraill. Cytunwn fod yma gyfle yn ogystal i hyrwyddo cyfleoedd i rieni ddysgu'r Gymraeg.

Rydym yn croesawu'r canfyddiad bod angen hyfforddi staff ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar, ac yn falch o weld targed penodol yn cael ei osod.

3. Deilliant 2 – Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Tud 38-40)

a. Rydym yn cydnabod gwerth ein Canolfannau Iaith wrth ddarparu'r cymorth ieithyddol dwys angenrheidiol i ddisgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg, fel eu bod yn gallu integreiddio'n llawn o fewn cymuned eu hysgol.

Nodwch eich sylwadau os gwelwch yn dda

Mae'r bwriad i gysylltu'r targed ar gyfer niferoedd y plant dosbarth derbyn/pump oed gyda'r targed ar gyfer Blwyddyn 1 i weld yn rhesymegol. Am y rheswm hynny, mae ein sylwadau ynghylch y cynigion yr un fath ag ar gyfer cwestiwn 1 uchod.

Croesawn y cynnig i ddarparu rhagor o wybodaeth, a gwell gwybodaeth i rieni, a meithrin y cyswllt rhwng cylchoedd meithrin ac ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn annog dilyniant.

O ran y cynnig i barhau i fuddsoddi yn y tair canolfan ar gyfer hwyrddyfodiaid, rydym yn siomedig i weld y cymal 'yn amodol ar gyllid'. Deallwn fod popeth yn amodol ar gyllid, ond mae popeth hefyd yn fater o flaenoriaethau. Mae gallu integreiddio hwyrddyfodiaid yng Nghyfnod Allweddol 2 yn greiddiol i gyrraedd y targedau ar gyfer twf, ac yn fater sylfaenol o degwch o ran mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Tybiwn y bydd angen ystyried sefydlu Canolfan newydd pan sefydlir yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhenfro ym mis Ionawr 2023 i wasanaethau ardaloedd mwy deheuol y sir.

b. Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y gweithredoedd yn Neilliant 2: Rwy'n cefnogi'r gweithredoedd

4. Deilliant 3 – Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall (Tud 41-43)

a. Credwn fod cadw disgyblion o fewn y sector cyfrwng Cymraeg yn arbennig o bwysig, h.y. y bydd disgyblion sy'n mynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd yn cael eu hannog a bod disgwyl iddynt barhau â hyn wrth drosglwyddo i gyfnodau allweddol dilynol yn y cyfnod uwchradd.

Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar yr egwyddor yma: Rwy'n cefnogi'r egwyddor yma

b. Nodwch unrhyw sylwadau os gwelwch yn dda ynglŷn â'n cynigion ar gyfer Deilliant 3

Unwaith eto, croesawn onestrwydd y Cyngor Sir wrth ddarparu'r ffigyrau trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i 3. Mae'r rhain yn bendant yn destun pryder – yng nghlystyrau Preseli a Chaer Elen yn ogystal ag ym Mro Gwaun. Mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud a digonedd o le i wella.

Cytunwn fod parhau i symud ysgolion cynradd ar hyd y continwmm ieithyddol, ynghyd â chryfhau'r cysylltiadau gyda'r ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg perthnasol, yn debygol o annog a hwyluso dilyniant. Rydym yn cyd-fynd yn ogystal â'r bwriad o wella safon y wybodaeth a ddarperir i deuluoedd a bod yn llawer mwy rhagweithiol yn hyn o beth.

Cwestiwn sy'n codi fan hyn yw'r dalgylchoedd uwchradd. Byddai'n dda cael mwy o esboniad yn y Cynllun am y rhesymeg dros y ffiniau sydd wedi'u penderfynu. Er enghraifft, tybir y byddai'r daith o Ddinbych-y-pysgod i Ysgol Caer Elen tipyn mwy hwylus na'r daith oddi yno i Ysgol y Preseli.

5. Deilliant 4 – Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (Tud. 44-47)

a. Yn ystod oes y CSCA hwn, rydym am ddatblygu ein trydedd ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Nodwch pa rai o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu eich barn orau ar hyn: Rwy'n cefnogi hyn

b. Wrth i nifer y dysgwyr uwchradd cyfrwng Cymraeg gynyddu, bydd y chweched dosbarth a/neu'r opsiynau galwedigaethol sydd ar gael iddynt ôl 16 oed yn bwysig. Rhwch eich sylwadau ar hyn ac amlinellwch unrhyw ddewisiadau.

Cymeradwywn y cynnig i agor darpariaeth uwchradd ychwanegol, yn ogystal â'r awgrym y gellid ymestyn darpariaeth Ysgol Caer Elen i gynnwys darpariaeth ôl-16.

Yn sicr, mi fydd partneriaethau'n allweddol wrth geisio sicrhau ehangder ac amrywiaeth o ddarpariaeth, gan gynnwys Coleg Sir Benfro ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg eraill oddi fewn y sir a thu hwnt – o bosib gan fanteisio ar gynlluniau megis E-sgol.

c. Nodwch unrhyw sylwadau os gwelwch yn dda ynglŷn â'n cynigion ar gyfer Deilliant 4

Croesawn y targedau penodol ar gyfer y deilliant hwn.

Byddai'n dda cael mwy o fanylder ynghylch sut y bwriedir mynd ati i gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg – nid yw 'datblygu strategaethau' yn ddigon concrit.

Mae'n siŵr bod angen strategaeth benodol o ran Mathemateg a'r Gwyddorau; efallai bod arfer dda o ardaloedd eraill y gellid manteisio arno – er ein bod yn cydnabod bod hyn yn broblem ar hyd siroedd y gorllewin.

Tybed a oes angen mynd ymhellach i gydnabod rôl a dylanwad y cwricwlwm newydd? Mi ddylai continwmm y Gymraeg (o'i weithredu'n gywir) olygu nad oes unrhyw ddisgybl yn llithro am yn ôl o ran safon eu

Cymraeg, na lefel y disgwyliadau ohonynt, waeth pa gyfrwng iaith yw'r ddarpariaeth maent wedi'i dewis. Mewn egwyddor, mi ddylai arwain at siaradwyr mwy hyderus – a allai arwain, dros gyfnod, at fwy o barodrwydd i sefyll cymwysterau yn y Gymraeg.

6. Deilliant 5 – Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol (Tud. 48-50)

a. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu eich barn orau ar ein gweithredoedd. Rwy'n cefnogi'r gweithredoedd

Nodwch unrhyw sylwadau os gwelwch yn dda ynglŷn â'n cynigion ar gyfer Deilliant 5

7. Deilliant 6 – Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Tud 51-52)

a. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu eich barn orau ar ein gweithredoedd: Rwy'n cefnogi'r gweithredoedd

b. Nodwch unrhyw sylwadau os gwelwch yn dda ynglŷn â'n cynigion ar gyfer Deilliant 6

Rydym yn siomedig gydag ansawdd y dadansoddiad dan bennawd 'Ble ydym ni yn awr', a'r diffyg data ynghylch y sefyllfa gyfredol (o ran anghenion ieithyddol plant, niferoedd staff, natur a hyd a lled y ddarpariaeth). Cytunwn felly fod angen gweithredu yn ddi-oed ar sail y cynigion i gynnal awdit (ac i'w cynnal yn gyson) ac i weithredu ar ei sail.

Awgrymwn fod angen cyfeirio nid yn unig at bontio cynradd/uwchradd, ond hefyd at bontio o'r uwchradd i'r camau nesaf o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth gan fod gofynion y Ddeddf yn darparu ar gyfer grŵp oedran 0-25, gyda phwyslais arbennig ar gyfnodau pontio.

Yn ogystal, er y byddai arbenigedd o fewn y sir yn ddelfrydol, gellid ystyried elfennau o ddarpariaeth ac arbenigedd traws-ffiniol, o bosib ar sail cydweithio rhanbarthol. Efallai y byddai'n haws darparu rhai elfennau o'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau Cymraeg ar lefel ddaearyddol ehangach.

Er bod y geiriad dan adran Deilliant 6 yn dderbyniol, teimlwn y gellid cryfhau'r geiriad yn Adran 7 y Cynllun (tudalen 27). Teimlwn fod angen pwysleisio bod y ddyletswydd dan y Ddeddf i 'adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag AAA neu ADY yn eu hardal' yn cynnwys y ddyletswydd 'i ystyried digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg'. Yn ogystal, nid yw'r Ddeddf yn nodi dyletswydd 'i gymryd camau rhesymol i greu system cyfrwng Cymraeg a dwyieithog' ond yn hytrach i 'gymryd pob cam rhesymol' - mae'r gwahaniaeth yn un pwysig.

Byddai'n werth diweddarau geiriad Adran 7 i gydnabod bod y Cod ADY wedi'i gyhoeddi. Yn ogystal, awgrymwn y byddai'n briodol dyfynnu o'r Cod ADY (2021) mai un o'r pum egwyddor sylfaenol sy'n sail i'r system ADY yw:

System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser.

8. Deilliant 7 – Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg (Tud 53-55)

a. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu eich barn orau ar ein gweithredoedd: Rwy'n cefnogi'r gweithredoedd

b. Nodwch unrhyw sylwadau os gwelwch yn dda ynglŷn â'n cynigion ar gyfer Deilliant 6

Heb sicrhau y gellir cynyddu nifer y staff sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc, a/neu sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n deg dweud na fydd unrhyw obaith cyrraedd at y deilliannau eraill; mae'r Deilliant hwn yn gonglfaen ar gyfer popeth arall yn y Cynllun.

Nodwn y gwaith sydd eisoes wedi digwydd o fewn y sir, a'r gwaith y bwriedir ei gyflawni - bydd hyn oll yn allweddol i sicrhau'r cynnydd angenrheidiol yn niferoedd y staff sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc neu sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cytunwn fod angen parhau â ffocws strategol yn y maes hwn, gan adnabod blaenoriaethau ar gyfer twf a chynnydd.

Byddai'n ddefnyddiol gweld mwy o ddadansoddiad ystadegol yn y Cynllun o ran lefelau sgiliau gweithlu addysg y sir (penaethiaid/athrawon/cynorthwyyr) mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai dadansoddiad o'r fath yn sail ar gyfer gosod targedau cynnydd penodol i gyd-fynd â thargedau Llywodraeth Cymru dan ei strategaeth Cymraeg 2050.

Teimlwn, er tegwch i Gyngor Sir Penfro (a chynghorau eraill) bod llawer o'r rheolaeth dros y cyflenwad o staff yn nwylo cyrff eraill e.e. Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg (a'r Bwrdd Achredu AGA), darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, ac y bydd angen gweithredu mewn partneriaeth i sicrhau'r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru